**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**5/4/22**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Dewi Wyn Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Euros Roberts

Hefyd yn bresennol: Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**2354** **Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd a llongyfarchwyd Huw P Roberts ar ddod yn daid. Derbyniwyd Ymddiheuriadau gan Alwyn E Jones, Huw P Roberts, Arwel Lloyd Jones a'r Cynghorydd Alan Jones Evans.

**2355** **Cofnodion** - Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Mawrth 1af 2022.

**2356** **Datganiadau o fuddiant -**dim

**2357** **Adroddiad y Clerc:**

i. Derbyniwyd diolchiadau gan Deulu Gwalia am y dathliad Gŵyl Ddewi yn yr Eagles, gydag adloniant gan Awel Jones a Haf Llewelyn.

ii. Cerdyn Debyd i'r Cyngor- cafwyd gwybodaeth o'r Banc nad yw'n bosib cael un oherwydd bod 2 person yn arwyddo sieciau. Mae'r Cyngor Cymuned wedi cynnwys yr hawl i ddefnyddio cerdyn personol yn y Rheoliadau Ariannol ar achlysuron eithriadol (gan ddefnyddio cerdyn credyd yn hytrach na cherdyn debyd). Trafodir y mater eto yn fanwl gan yr is-bwyllgor Cyllid.

**2358** **Adroddiadau'r Cynghorwyr**: Derbyn

i. Y Gaiman: Dywedodd Beryl Hughes Griffiths nad oedd cysylltiad wedi bod o du'r Gaiman.

ii. Cynllun Ardal: Adroddodd Huw Antur o'r cyfarfod fod y Cynllun wedi ei anfon at nifer o wleidyddion a phrif swyddogion. Cafwyd ymateb da yn mynegi parodrwydd i fod o gymorth.

iii. Asedau – diolchwyd am adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorwyr. Cytunwyd i sefydlu Is Bwyllgor Asedau (i gymryd lle'r Is Bwyllgor Toiledau) er mwyn gwirio cyflwr yr asedau a chreu rhaglen waith o welliannau posibl.

iv. Panel Gwybodaeth ar dir Rheilffordd Llyn Tegid: Tynnwyd sylw fod cefn y panel gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio fel hysbysfwrdd blêr gan gwmni'r rheilffordd. Nodwyd fod hyn yn dangos diffyg parch i'r panel ac i'r iaith Gymraeg gan fod y posteri yn uniaith Saesneg. Penderfynwyd gofyn i'r Cyng. Arwel Jones fynd i drafod gyda'r rheilffordd.

**2359** **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd Adroddiad yn nodi fod gwaith CPP gyda'r rhaglen Cymunedau Mentrus yn parhau, a Henblas yn parhau i gael ei datblygu fel Hwb Llesiant Cymunedol.

Nodwyd hefyd fod Partneriaeth Penllyn wrthi'n trafod tendr cynnal llwybrau cyhoeddus am y 3 blynedd nesaf, a gofynnwyd a oes posib cynnwys gwrych Llwybr Cei fel rhan o'r rhaglen waith.

**2360 Materion Ariannol:**

i. Adroddodd Alwyn M Roberts o'r Is-bwyllgor Cyllid fod y gwariant yn uwch na'r Gyllideb oherwydd gwariant ac incwm (grantiau) anarferol. Ond o ddiystyru'r eitemau hynny roedd yr incwm a'r gwariant arferol yn agos iawn at yr hyn a gynlluniwyd yn y Gyllideb. Mae'r gwariant ar y toiledau o fewn y Gyllideb. Mae cyfrif y fynwent yn llai na'r flwyddyn flaenorol, ond fe wariwyd ar baentio'r railings un ochr y fynwent sydd yn gwneud y sefyllfa yn niwtral. Cytunwyd i'r SAC symud ymlaen gyda'r gwaith cyfrifon ac i ddod ag Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a'r Adroddiad Blynyddol i sylw'r Cyngor yng nghyfarfod Mehefin. Derbyniwyd yr Adroddiad Cyllid a diolchwyd i'r Is-bwyllgor a'r swyddogion.

ii. Cytunwyd i dalu anfonebau:
   a. Cynnal a chadw lloches bws y Lôn £120
   b. Trwsio wal maes parcio'r mynwentydd (Cyfrif y fynwent £120)
   c. Cadarnhawyd bod y taliadau canlynol wedi eu gwneud yn unol â chyfarwyddyd y Cyngor:

Cytundebau swyddogion y Cyngor a CThEM
Cytundeb Glanhau
CCF – nwyddau toiledau £16.69
Cyfraniadau 2021-22 (9 yn ôl y rhestr) £1250.00)
Eagles - Cyfraniad (gyda grant Cyngor Gwynedd ) i Deulu Gwalia £336.00

**2361 Un Llais Cymru**: Derbyniwyd Adroddiad o Bwyllgor Meirionnydd gan y Clerc a fynychodd fel dirprwy; cafwyd cyflwyniad diddorol iawn gan Planning Aid Wales. Cyfeiriodd at y posibilrwydd o ofyn am Amod 106 os daw cais cynllunio ar adeilad ger bron. Bydd James Davies yn cynnal cyfarfod Zoom gyda'r Clerc a Huw Antur cyn hir i hybu'r Cynllun Ardal. Roedd yn llongyfarch y Cyngor Cymuned am fod mor arloesol a deinamig yn cynhyrchu'r ddogfen, ac roedd yn dymuno ei rannu ymhellach. Mae Mel ab Ioan hefyd yn gwahodd Huw Antur i roi cyflwyniad i Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru.

**2362 Ystyried gohebiaeth,** yn cynnwys

i. Derbyniwyd cais am brosiect o dan y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol am arian ar gyfer prynu ased neu agor tafarn cymunedol ac yn y blaen; bydd angen ystyried hwn yn y Cyngor nesaf.

ii. Derbyniwyd ymholiad gan swyddog yr Eglwys yng Nghymru yn holi a fyddai gan y Cyngor ddiddordeb mewn prynu Eglwys Deiniol Sant. Cytunwyd i ymateb gan holi a fu cyswllt yn ddiweddar rhwng yr Eglwys a Chylch y Llan, a ydyw'r Eglwys ar y farchnad agored erbyn hyn, ac - os ydyw – a oes pris mewn golwg.

iii. Cymeradwywyd cais NP5/71/488 i adeiladu pont dros ryd ar yr Afon Dyfrdwy, Coedwig Penaran, Llanuwchllyn.

iv. Derbyniwyd llythyr gan drefnwyr y Triathlon. Nid yw'r bwriad i gau'r A494 wedi newid ers penderfyniad Ionawr, felly ni all y Cyngor ail-ymweld a'r penderfyniad hwnnw ar hyn o

bryd. Gofynnwyd i'r Clerc i holi busnesau sy'n dioddef yn ariannol a ydyw eu pryderon wedi eu lleddfu erbyn hyn. Pwysleisiwyd fod angen cynllun manwl ymlaen llaw, cyfle i gael mewnbwn iddo, ac angen lledaenu gwybodaeth yn lleol am yr achlysur. Hefyd mae angen trefnu digon o stiwardiaid, a'u hyfforddi ymlaen llaw.

v. Mast Cynllwyd – derbyniwyd gwahoddiad o'r Llywodraeth i gyfarfod Zoom i drafod hwn.

vi. Gŵyl Llan - cytunwyd i roi cymorth ymarferol ac ariannol gyda'r bunting. Awgrymwyd y gallai'r Cynghorydd Alwyn E Jones fod o gymorth wrth osod bunting neu addurniadau eraill.

vii. Problem gyrru Maesypandy: Derbyniwyd cwynion am y broblem o yrru'n ddiofal gan faniau dosbarthu a gyrwyr lleol. Wrth gyd-ymdeimlo, mynegwyd nad oes gan y Cyngor reolaeth na hawliau ar y mater. Dywedodd y Clerc y byddai'n hysbysu'r PCSO. Mynegwyd y farn efallai byddai rhai trigolion yn dymuno gosod arwyddion i atgoffa gyrwyr fod plant yn mynychu'r lle chwarae.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: oherwydd yr etholiadau lleol ac absenoldebau nifer cytunwyd i hepgor cyfarfod Mai, oni bai fod achos brys.

Cyfarfod nesaf, yn cynnwys Cyfarfod Blynyddol, yn y Neuadd ac ar Zoom 7/6/22 am 7.30pm

Amser gorffen: 8.45pm